# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 2

DIGARTREFEDD

## PENNOD 2

CYMORTH I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU
O DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD

*Dyletswyddau i gynorthwyo ceiswyr*

### 69 Amgylchiadau pan fo'r ddyletswydd yn adran 68 yn dod i ben

(1) Mae'r ddyletswydd i geisydd o dan adran 68 yn dod i ben o dan unrhyw un o'r amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), (3) (yn ddarostyngedig i is-adran (4) a (5)), (7), (8) neu (9) os yw'r ceisydd wedi ei hysbysu yn unol ag adran 84.

(2) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol wedi penderfynu nad oes dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 73 a bod y ceisydd wedi ei hysbysu am y penderfyniad hwnnw.

(3) Yn achos ceisydd y mae adran 68(3) yn gymwys iddo, yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol—

(a) wedi penderfynu bod y ddyletswydd i'r ceisydd o dan adran 73 wedi dod i ben a bod dyletswydd yn ddyledus neu nad yw'n ddyledus i'r ceisydd o dan adran 75, a

(b) wedi hysbysu'r ceisydd am y penderfyniad hwnnw;

ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-adrannau (4) a (5).

(4) Mae is-adran (5) yn gymwys pan fo awdurdod tai lleol wedi penderfynu nad oes dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 75 ar y sail bod yr awdurdod—

(a) yn fodlon y daeth y ceisydd yn ddigartref yn fwriadol o dan yr amgylchiadau a arweiniodd at y cais, neu

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 69. (See end of Document for details)*

(b) wedi sicrhau cynnig o lety o'r math a ddisgrifir yn adran 75(3)(f) yn flaenorol.

(5) Nid yw'r ddyletswydd o dan adran 68 yn dod i ben o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (3) hyd nes y bo'r awdurdod yn fodlon hefyd bod y llety a sicrhawyd ganddo o dan adran 68 wedi bod ar gael i'r ceisydd am gyfnod digonol, gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbysir ef nad yw adran 75 yn gymwys, er mwyn caniatáu cyfle rhesymol i'r ceisydd sicrhau llety iddo ei feddiannu.

(6) Nid yw'r cyfnod a grybwyllir yn is-adran (5) yn ddigonol at ddibenion yr is-adran honno os yw'n dod i ben ar ddiwrnod yn ystod y cyfnod o 56 o ddiwrnodau sy'n dechrau gyda'r diwrnod yr hysbyswyd y ceisydd bod y ddyletswydd yn adran 73 yn gymwys.

(7) Yr amgylchiadau yw bod y ceisydd, ar ôl cael ei hysbysu am ganlyniadau posibl gwrthod, yn gwrthod cynnig o lety a sicrhawyd o dan adran 68 y mae'r awdurdod tai lleol yn fodlon ei fod yn addas ar gyfer y ceisydd.

(8) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol o lety interim addas y sicrhawyd o dan adran 68 ei fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu.

(9) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd wedi rhoi'r gorau yn wirfoddol i feddiannu, fel ei unig neu ei brif gartref llety interim addas y sicrhawyd o dan adran 68 ei fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu.

(10) Daw'r ddyletswydd i ben yn unol â'r adran hon hyd yn oed os yw'r ceisydd yn gofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad sydd wedi arwain at ddod â'r ddyletswydd i ben (gweler adran 85).

(11) Caiff yr awdurdod sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu hyd nes y gwneir penderfyniad ynghylch adolygiad.

(12) Gweler adran 79 am amgylchiadau pellach pan fo'r ddyletswydd yn adran 68 yn dod i ben.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 69 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 69 mewn grym ar 27.4.2015 gan O.S. 2015/1272, ergl. 2, **Atod. para. 20**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 69.